PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk/cy/news

Profiad Myfyrwyr Gorau yn y Wlad 2010

# NEWYDDION Aber

*Aberystwyth… mwy na thebyg y lle gorau yn y byd i fod yn fyfyriwr*

RHIFYN 6
Awst 2011

NEWYDDION PRIFYSGOL

# Cyn-fyfyrwyr yn croesawu'r Is-Ganghellor

Cafodd yr Athro April McMahon groeso cynnes iawn gan gyn-fyfyrwyr y Brifysgol yn yr aduniad blynyddol yn yr Eisteddfod a drefnwyd gan Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr Aberystwyth a'r Brifysgol.

Bu'r Athro McMahon yn annerch cynulleidfa o tua dau gant a hanner o gyn-fyfyrwyr a ffrindiau yn ei hail ddigwyddiad cyhoeddus o'i hwythnos gyntaf fel Is-Ganghellor.

Mewn araith yn y Gymraeg talodd yr Athro McMahon deyrnged i'w rhagflaenydd yr Athro Noel Lloyd. "Gwnaeth yr Athro Noel Lloyd gyfraniad hollbwysig i Brifysgol Aberystwyth dros lawer o flynyddoedd. Mae hi'n bwysig ein bod ni'n cydnabod hyn yn ffurfiol, ond yn bersonol hefyd, fe hoffwn i ddiolch iddo am ei groeso cynnes, ei haelioni, a'i barodrwydd i ateb fy holl gwestiynau!"

Wrth siarad am y Brifysgol dywedodd: "Mae hi'n bleser ac yn fraint i gael arwain a gwasanaethu'r Brifysgol, ac rwy'n edrych ymlaen at gydweithio gyda'r bobl hynny sydd wedi bod yn gweithio i sicrhau bod Aberystwyth yn lle mor wych i astudio, gweithio ac ymchwilio ynddo.


"Mae'r awyrgylch cyfeillgar a pharodrwydd pawb i weithio dros y Brifysgol wedi gwneud argraff fawr arnaf i. Mae'r Brifysgol a'r dref yn gymunedau go iawn, ac mae fy nheulu a minnau yn edrych ymlaen at gael dod yn rhan ohonyn nhw."

Ar ei diwrnod cyntaf un yn ei swydd newydd croesawodd yr Athro McMahon dros 70 o ddysgwyr y Gymraeg i'r Brifysgol o bob cwr o'r byd ar ddiwrnod agoriadol Cwrs Haf Awst.

Trefnir y cwrs gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru, a hynny ar gyfer dechreuwyr a dysgwyr mwy profiadol fel ei gilydd. Eleni roedd yn croesawu dysgwyr o America, Llydaw, Gwlad Pwyl, yr Almaen, Awstralia, Siapan a Lloegr, yn ogystal â Chymru.






*Yn y llun, yn ystod derbyniad i gyn-fyfyrwyr a gynhaliwyd yn yr Eisteddfod, mae Ei Anrhydedd y Barnwr Nic Parry, Yr Athro April McMahon, Yr Athro Noel Lloyd, Kay Powell a John Hughes.*

4 Diwedd Cyfnod

6 Ymchwil Aber

7 Pwerau Niwclear

10 Datblygu'r iChwyldro

11 Wythnos Dechrau Busnes

12 O Fryste i Barcelona


The Queen's Anniversary Prizes For Higher and Further Education 2009

CYFATHREBU A MATERION CYHOEDDUS

Cyhoeddir NEWYDDION Aber gan **Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus**, Prifysgol Aberystwyth. Ffôn 01970 621763. E-bost cyfathrebu@aber.ac.uk.

Bydd y rhifyn nesaf o NEWYDDION Aber ar gael ym mis Medi.

Dyddiad cau ar gyfer rhifyn mis Tachwedd 2011 yw dydd Gwener 16eg Medi.

NEWYDDION PRIFYSGOL

# Cynllun Ffioedd Aberystwyth 2012/13

Ddydd Llun 11 Gorffennaf cymeradwywyd Cynllun Ffioedd Aberystwyth gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Yma mae Dr Sarah Taylor, Cyfarwyddwr Cynllunio newydd y Brifysgol, yn egluro'r hyn y mae'r cynllun yn ei olygu a'r hyn fydd, gobeithio, yn cael ei gyflawni ganddo.

Ar 11 Gorffennaf croesawyd y newyddion fod y Cyngor Cyllido wedi derbyn ein cynllun ffioedd ar gyfer 2012/13 O ganlyniad, bydd Prifysgol Aberystwyth yn cael codi ffioedd o £9,000 y flwyddyn o 2012/13.

Mae'r cynllun yn bwysig oherwydd ei fod yn cynnwys nifer o fentrau allweddol sydd wedi'u cynllunio i wella'r profiad myfyriwr rydym ni'n ei gynnig, sydd eisoes yn rhagorol, ac ehangu mynediad fel bod modd i bawb sy'n gallu elwa o Addysg Uwch wneud hynny. Rydym ni wedi ymgorffori barn cynrychiolwyr y myfyrwyr ar bob cam wrth baratoi a chwblhau'r cynllun ac mae'r pwyslais ar gydraddoldeb cyfle yn ein gwariant arfaethedig yn cyd-fynd â barn y myfyrwyr fel y'i cynrychiolir gan yr Urdd.

Mae'r cynllun ffioedd cyflawn i'w weld ar ein gwefan: www.aber.ac.uk/cy/university/student-fees/, ond ceir crynodeb o'r prif fentrau rydym ni'n ymrwymo iddynt fel rhan o'r cynllun isod:

- Buddsoddi £1m i ddarparu cynllun bwrsariaethau ar sail prawf moddion ariannol a fydd yn darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr o gefndiroedd isel eu hincwm. Dylai tua 1,250 o fyfyrwyr sy'n dod i PA ym mis Medi 2012 elwa ar hyn.
- Cynnig Prifysgol Haf Aberystwyth a fydd yn rhoi profiad o fywyd prifysgol i tua 80 o bobl ifanc o ysgolion a cholegau mewn ardaloedd lle, yn draddodiadol, mae'r nifer sy'n mynd ymlaen i Addysg Uwch yn isel.
- Gwella ein cefnogaeth i fyfyrwyr ag anableddau.

  Buddsoddi yn ein cynlluniau mentora cymheiriaid i fyfyrwyr ac mewn adnoddau technegol i gefnogi dysgu mwy hyblyg.
- Parhau i fuddsoddi, gan sicrhau bod ein myfyrwyr yn elwa ar amgylchedd dysgu rhagorol.
- Datblygu gweithgareddau a fydd yn gwella cyflogadwyedd ein myfyrwyr, datblygu cynllun gwobrwyo i gydnabod gweithgareddau allgyrsiol a darparu cyfleoedd hyfforddi pellach gyda busnes a diwydiant.
- Datblygu 'grŵp myfyrwyr sy'n dysgu â chymorth technoleg' a fydd yn caniatáu i aelodau ddarparu adborth ynghylch gwasanaethau'r Brifysgol a chynorthwyo ein Hadran Gwasanaethau Gwybodaeth i brofi technolegau dysgu newydd.

Caiff y cynllun ei fonitro'n ofalus dros y flwyddyn nesaf i sicrhau ein bod yn llwyddo i gwrdd â'r targedau heriol rydym ni wedi'u gosod ar gyfer 2012/13. Cynlluniwyd y targedau hyn i sicrhau ein bod yn ymdrechu'n barhaus i wella profiad y myfyriwr a gweithio i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn derbyn cymorth i gael mynediad i Addysg Uwch a chyflawni eu potensial llawn.

## Dr Sarah Taylor

Penodwyd Sarah Taylor yn ddiweddar yn Gyfarwyddwr Cynllunio'r Brifysgol. A hithau'n gyn-fyfyrwraig o Adran Hanes a Hanes Cymru, aeth ymlaen i gwblhau doethuriaeth yma cyn mynd i weithio fel Ymchwilydd Cysylltiol ym Mhrifysgol Caerefrog. Ymunodd â'r Swyddfa Cynllunio yn 2000 mewn swydd dros dro cyn cael ei phenodi'n Gynorthwy-ydd Gweinyddol ac yna'n Gofrestrydd Cynorthwyol.



Rydym ni wedi ymrwymo i strategaeth cyfathrebu a fydd yn rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r cymorth ariannol sydd ar gael i israddedigion newydd, gan gynnwys ein pecyn bwrsariaethau hael, a chyflenwi gwybodaeth am yr hyn sy'n gynwysedig yn y ffioedd a delir. Mae hyn yn symudiad i'w groesawu at well tryloywder ac rydym ni'n ymchwilio i ddichonoldeb defnyddio dull 'dangosfwrdd' i hysbysu myfyrwyr sut mae'r incwm o ffioedd yn cael ei wario.

Byddwn ni hefyd yn rhoi gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr am y system ffioedd newydd, i'w sicrhau na ddylai neb gael eu perswadio i beidio â mynd i'r Brifysgol. Y pwyntiau allweddol fydd:

- Nid oes rhaid talu unrhyw ffioedd ymlaen llaw. Pan fyddant yn astudio llawn amser, ni fydd rhaid i israddedigion dalu ffioedd.
- Ni fydd unrhyw ad-daliadau ffioedd yn ddyledus tan fod cyflog yn cyrraedd £21,000, ac yna bydd y taliad yn seiliedig ar 9% o'r cyflog dros £21,000 (felly ar gyflog blynyddol o £25k, y taliadau misol fyddai £30).

Bydd ein cynllun ffioedd yn ein helpu ni i barhau i gynnal gwerthoedd Aberystwyth o ran rhagoriaeth profiad y myfyrwyr a mynediad i bob myfyriwr abl. Ein gwaith dros y blynyddoedd nesaf fydd hysbysu darpar fyfyrwyr am y gwerthoedd hyn a rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl iddynt i'w helpu i wneud dewisiadau deallus ynglŷn â mynd ymlaen i Addysg Uwch.

NEWYDDION PRIFYSGOL

# Colofn yr Is-Ganghellor



Mae hi wedi bod yn amser hir ers mis Ionawr - amser hir i'r sector Addysg Uwch, a chyfnod go faith i mi!

O ran Addysg Uwch, rydym ni wedi gweld y Papur Gwyn hir ddisgwyliedig gan Lywodraeth San Steffan, gyda thrafodaeth barhaus yn ei ddilyn am y goblygiadau i brifysgolion drwy'r DU gyfan. Cafwyd datganiadau o'r ffioedd a fwriedir ar gyfer 2012/13, a'r newyddion rhagorol bod ein Cynllun Ffioedd ni wedi'i gymeradwyo. Nid ar chwarae bach y gwnaed y penderfyniad am lefel y ffioedd y byddwn ni'n eu codi, ond fe'i hadeiladwyd ar gyfrifiad gofalus o'r costau o barhau i ddarparu profiad myfyriwr o ansawdd byd-eang, addysgu rhagorol, ac amgylchedd dysgu cryf, tra bo cyllido y llywodraeth yn gostwng. Hyd yn oed yn fwy diweddar, cafwyd y datganiad disgwyliedig gan Lywodraeth Cymru a HEFCW ynghylch yr aildrefnu tebygol yn y sector yng Nghymru, gan lansio ymgynghoriad y bydd ein Prifysgol ni yn naturiol yn cyfrannu'n helaeth iddo.


Ac o'm rhan i: fe'm penodwyd yn ddarpar Is-Ganghellor ym mis Ionawr, ac ers hynny rwyf i a'm teulu wedi bod yn edrych ymlaen at ymuno â chi yn Aberystwyth. Hoffwn ddiolch i Noel Lloyd am ei haelioni yn fy nghynnwys mewn cyfarfodydd allweddol a thrafodaethau dros y misoedd diwethaf. Rwyf i wedi mwynhau gweithio gydag ef, ac am anfon fy nymuniadau gorau ar ei ymddeoliad wrth iddo ddychwelyd i fyd mathemateg!

Trwy fy ymweliadau ag Aberystwyth, rwyf wedi gallu dechrau ffurfio darlun cliriach o gryfderau mawr y Brifysgol - ac o'r hyn sydd angen ei wneud. Mae'r cryfderau'n niferus. Mae gennym ni ragoriaeth wirioneddol yn y tîm hŷn; ymrwymiad a chanlyniadau eithriadol o ran ymchwil ac addysgu; a chyfeillgarwch gwirioneddol â'r dref a'r gymuned leol y mae'n rhaid i ni adeiladu arno at y dyfodol. All neb beidio â rhyfeddu at y cynnydd mewn ceisiadau gan israddedigion dros y pum mlynedd diwethaf; ac roeddwn i'n ddigon ffodus i fod mewn Diwrnod Agored ym mis Gorffennaf, i weld cyfraniad eithriadol staff academaidd a chymorth proffesiynol a'r myfyrwyr, yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau diwrnod rhagorol, llawn egni.

Fodd bynnag, mae digon o waith i'w wneud. Mae'n bwysicach nac erioed i ni weithio mewn partneriaeth gyda'n myfyrwyr, ac rwyf i eisoes wedi cyfarfod â swyddogion Sabothol newydd Urdd y Myfyrwyr i gytuno ar batrwm newydd o gyfarfodydd gyda fy nhîm o uwch swyddogion. Mae angen i brifysgol gyda'n record a'n dyheadau ymchwil ni gynyddu nifer y myfyrwyr uwchraddedig yn sylweddol; a byddai cynnydd o ran myfyrwyr rhyngwladol yn cynnig amgylchedd hyd yn oed yn fwy bywiog ac amrywiol i'r holl fyfyrwyr a staff. Ydyn ni wastad yn gwneud digon i rannu'r arfer da rwyf i eisoes wedi'i weld ar waith? Ydyn ni'n cymell llwyddiant, ac ydyn ni wedi ein trefnu mewn ffordd sy'n caniatáu i ni ei wneud hynny hyd yn oed yn well?

Mae'n bleser ac yn fraint cael derbyn y gwahoddiad i arwain Prifysgol Aberystwyth drwy'r cyfnod nesaf hynod bwysig hwn yn ei hanes. Rwyf i'n edrych ymlaen at gael cyfarfod â chi i gyd, clywed eich syniadau a rhannu fy rhai innau. Yn wir, rwyf wedi bod yn cyfri'r diwrnodau.

**Yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor.**




## Cwrdd â'r Is-Ganghellor

Yn ystod mis Awst a mis Medi 2011 bydd cyfle i holl aelodau staff y Brifysgol gyfarfod â'r Is-Ganghellor newydd, yr Athro April McMahon.

Bydd y cyfarfodydd yn para tuag awr a byddant yn gyfle i'r Athro McMahon rannu ei syniadau cynnar â staff am sut y gallwn, gyda'n gilydd, ffurfio ein dyfodol ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych. Darperir lluniaeth.


Ceir manylion am ddyddiadau ac amseroedd pob cyfarfod ar-lein. Nodwch y bydd angen i chi archebu eich lle yn un o'r cyfarfodydd o flaen llaw drwy fynd i:
www.aber.ac.uk/cy/vc-meetings

Dylai cydweithwyr nad oes ganddynt gyfrif ebost staff neu sydd angen cymorth i archebu lle gysylltu â'r Swyddfa Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus ar (62)1568 neu Adnoddau Dynol (62)8555.

NEWYDDION PRIFYSGOL

# Diwedd cyfnod

Yr Athro Noel Lloyd CBE, a ymddeolodd ddiwedd mis Gorffennaf, yn edrych yn ôl dros y cyfnod y bu'n dal ei swydd fel Is-Ganghellor y Brifysgol.



Mae hi wedi bod yn fraint cael gwasanaethu Prifysgol Aberystwyth fel Is-Ganghellor dros y saith mlynedd diwethaf. Bu'n gyfnod o newid, ac mae cyfradd y newid wedi bod yn cynyddu'n gyson. Prin fod angen ailadrodd bod y cynnwrf o fewn Addysg Uwch drwy'r DU ar hyn o bryd yn angerddol, a bod heriau penodol yn wynebu prifysgolion yng Nghymru.

Dyma fy nghyfraniad olaf i Newyddion Aber, ac felly mae'n briodol i mi edrych yn ôl, ond gwneud hynny yn ysbryd datblygiad parhaus y Brifysgol.

Un o'r penderfyniadau cyntaf a wnaed ar ôl i mi ddod yn Is-Ganghellor oedd y byddem ni'n ceisio ein pwerau dyfarnu graddau ein hunain. Daethom yn Brifysgol Aberystwyth ac rydym ni bellach yn dyfarnu graddau PA. Roedd - ac mae - hwn yn arwydd o uchelgais a hunanhyder.

Ar yr un pryd rydym ni wedi sefydlu partneriaethau gyda phrifysgolion eraill sydd wedi cyfrannu mewn ffordd bwysig at ein datblygiad. Un i'w nodi'n arbennig yw'r Bartneriaeth Ymchwil a Menter gyda Phrifysgol Bangor, oedd yn gysyniad arloesol ar y pryd. Mae hon wedi bod yn bartneriaeth lwyddiannus ac wedi datblygu'n gynghrair strategol ar draws amrywiaeth gynyddol eang o weithgareddau. Does gennyf i ddim amheuaeth fod partneriaethau o wahanol fathau'n hanfodol ar gyfer ein lles yn y dyfodol - er mwyn bod yn gystadleuol yn rhyngwladol, darparu gwasanaeth effeithiol (ac effeithlon) i fyfyrwyr a staff a hefyd yn ein hymgysylltiad â'r gymuned.

Rhaid pwysleisio bod gan brifysgolion rôl allweddol i'w chwarae yn eu hardaloedd (ac yn enwedig yn Aberystwyth), ac mae gennym gyfraniad pwysig i'w wneud i Gymru. Ond i wneud hyn mae'n rhaid i ni sicrhau enw rhyngwladol a rhaid bod yn gystadleuol yn y DU.

Mae'n hanfodol mai'r myfyrwyr yw canolbwynt ein gwaith ac rwyf wrth fy modd â'r llwyddiant cyson mae Aberystwyth wedi'i gael yn yr holl arolygon o foddhad myfyrwyr. Dyma fu un o brif nodweddion y pum mlynedd diwethaf ac mae'n rhaid ei fod wedi arwain yn rhannol at lwyddiant ysgubol y Brifysgol o ran recriwtio myfyrwyr. Mae'r ffigurau'n adrodd eu stori eu hunain – cynnydd anferth mewn ceisiadau a derbyniadau dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae partneriaethau'n hanfodol, ac integreiddio ein gweithgareddau'n anhepgor – integreiddio ar draws y brifysgol a rhwng prifysgolion â'i gilydd. Un o'r datblygiadau pwysicaf dros y saith mlynedd diwethaf oedd sefydlu IBERS drwy uno'r IGER blaenorol a'r Brifysgol. Mae hyn wedi arwain at bartneriaethau eraill gyda phrifysgolion blaenllaw yn y DU – gan glustnodi'r prif faterion, ac ymateb drwy ddwyn ynghyd ddulliau rhyngddisgyblaethol. Yr un mor bwysig fu'r agwedd gadarnhaol at ein cyfraniad at yr economi drwy arloesi a hyfforddi.

Mae llu o ddatblygiadau eraill y gallwn i sôn amdanynt sydd wedi rhoi pleser arbennig i mi. Nodaf hefyd yr adeiladau newydd sydd wedi'u cwblhau ac sydd yn cael eu hadeiladu. Dros gyfnod, bydd y Brifysgol yn edrych yn wahanol iawn a bydd datblygiadau'r cyfnod hwn yn hanes y Brifysgol yn cael eu hamlygu drwy'r adeiladau hyn.

Pan gefais fy mhenodi dywedais ei bod yn hanfodol peidio â bod yn ynysig mewn unrhyw fodd a bod yn rhaid i Aberystwyth chwarae rhan lawn yng ngwaith y sector AU yn y DU. Rwyf i wedi ceisio gwneud hyn, ac arweiniodd hynny fi i gadeirio AUC ac ymwneud â UUK, QAA ac UCEA, er enghraifft. Bu'r gweithgareddau hyn yn ddiddorol iawn, a chredaf fod Prifysgol Aberystwyth wedi elwa ar yr un pryd yn sgil yr ymwneud hwn.

Bu'n anrhydedd mawr ac yn bleser i wasanaethu fel Is-Ganghellor, ac rwyf i'n dymuno pob llwyddiant a boddhad i'r Athro April McMahon.



# Gwerthfawrogiad y gynulleidfa

Wedi i'r Athro Noel Lloyd annerch ei seremoni raddio olaf yn rhinwedd ei swydd fel Is-Ganghellor cododd y gynulleidfa i gymeradwyo a chydnabod ei gyfraniad.

Wrth annerch cynulleidfa o staff a graddedigion o Sefydliad Mathemateg a Ffiseg a Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Chefn Gwlad, dywedodd Llywydd y Brifysgol, Syr Emyr Jones Parry: "Hoffwn dalu teyrnged i'r Is-Ganghellor, yr Athro Noel Lloyd, a fydd yn ymddeol ar ddiwedd y mis hwn wedi 36 mlynedd o wasanaeth rhyfeddol a theyrngar i'r Brifysgol. Mae'n gadael gyda'n dymuniadau gorau a'n diolch am yr oll y mae wedi ei gyfrannu at lwyddiant y Brifysgol."

Ers ei benodi i swydd yr Is-Ganghellor yn 2004 mae'r Athro Lloyd wedi arwain 56 seremoni graddio.

**NEWYDDION PRIFYSGOL**

## Ar ddydd Sadwrn 16 Gorffennaf cynhaliwyd cinio yn y Brifysgol i anrhydeddu'r Is-Ganghellor, Yr Athro Noel Lloyd a Mrs Dilys Lloyd, ac i nodi ymddeoliad yr Is-Ganghellor.

Talwyd y derynged gyntaf iddo gan Lywydd y Brifysgol, Syr Emyr Jones Parry. Nododd fod yr Is-Ganghellor wedi bod yn "was da a ffyddlon" i'r Brifysgol dros gyfnod o dri deg a chwech o flynyddoedd - gyrfa hynod o lwyddiannus wrth iddo ymgymryd ag ystod eang o ddyletswyddau, gan gychwyn fel darlithydd yn yr Adran Fathemateg cyn ei ddyrchafu yn Athro.

Cafodd gyfnod yn Bennaeth Adran, yn Ddeon Cyfadran y Gwyddorau, yn Ddirprwy Is-Ganghellor ac yn Gofrestrydd ac Ysgrifennydd cyn dod yn arweinydd ar y sefydliad yn Awst 2004. Roedd hwn yn amser cyffrous a welodd yr hawl i ddyfarnu graddau Prifysgol Aberystwyth yn 2007, a chreu IBERS yn 2008 pan unwyd IGER gyda'r Brifysgol, a hefyd sefydlu'r bartneriaeth gyda Phrifysgol Bangor.

Darllenodd Syr Emyr yr englynion arbennig a gyfansoddwyd i'r Is-Ganghellor gan Dr Huw Meirion Edwards, darlithydd yn Adran y Gymraeg ac enillydd cadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2004 – geiriau clodwiw yn crynhoi ei waith caled a'i gyfraniad.

Talwyd teyrnged bellach iddo ar ran staff y Brifysgol gan yr Athro Aled Jones, y Dirprwy Is-Ganghellor Hŷn, a ddiolchodd iddo am ei gyfeillgarwch, ei hiwmor a'i afael rhyfeddol ar fanylder wrth ymgymryd â'i ddyletswyddau. Nododd hefyd ei ymrwymiad arbennig i Gymreictod y Brifysgol.

Diolchodd yr Is-Ganghellor am y geiriau caredig ac am y gefnogaeth roedd wedi ei dderbyn gan aelodau Cyngor, staff a myfyrwyr y Brifysgol. Roedd wedi bod yn fraint iddo gael bod yn Is-Ganghellor, meddai, a mynegodd hefyd ei ddiolch ar ran ei wraig, Dilys, a'r teulu am y croeso a'r cyfeillgarwch a gafwyd yn y Brifysgol a'r gymdogaeth ar hyd y blynyddoedd.

Uchafbwynt y noson oedd dadorchuddio portread o'r Is-Ganghellor gan yr arlunydd yn Mark Roscoe. Rhoddwyd braslun o'r portread yn anrheg iddo gan y Brifysgol, a chopi o'r englynion wedi ei fframio. Cyflwynwyd torch o flodau i Mrs Dilys Lloyd.

Cafodd gwesteion y noson gyfle i fynegi eu dymuniadau gorau i'r Athro Noel Lloyd mewn llyfr lloffion. Diolchodd Syr Emyr i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson.

**Dr Catrin Hughes - Cofrestrydd ac Ysgrifennydd**



*Yr Athro Noel Lloyd gyda'r arlunydd Mark Roscoe*



*Yr Athro Noel Lloyd gyda chopi o'r englynion wedi eu fframio*

## Yr Englynion

*I gyfarch yr Athro Noel Lloyd ar ei ymddeoliad, Gorffennaf 2011*

Chwith, wedi rhoi o'ch eithaf, – clirio drôr,
Cloi'r drws, a dychmygaf
Nad hawdd yn eich seithfed haf
Dynnu'r ffin dan Orffennaf.

Ond Gorffennaf arafach – eleni
Sy'n ddalen lân bellach;
Wedi byw pob eiliad bach
Yn brysur, mae'n haf brasach.

Wedi hafau o dyfiant – fe feda'r
Dyfodol eich llwyddiant;
Rhag gwasgfâu'r galwadau gant
Cewch heddwch, cewch eich haeddiant.

**Huw Meirion Edwards**

## Graddio 2011

Heb weld y seremonïau graddio eleni?

Mae fideos y graddio i'w gweld o hyd yn www.aber.ac.uk/cy/graduation/video/2011/



# Ymchwil ABER

Nawr ein bod ni newydd gwblhau'r rownd ddiweddaraf o fonitro ymchwil yn adrannau Prifysgol Aberystwyth, a hynny ar ddechrau cyfnod 'ymchwil' yr haf, mae'n amserol ailadrodd yr angen am ganolbwyntio ar gynnyrch ymchwil sydd o safon uchel yn hytrach na chynnyrch niferus (ond gan rybuddio hefyd fod y rhan fwyaf o staff academaidd angen cwblhau pedwar darn ymchwil o safon uchel i'w cynnwys yn FfRhY 2014).



**Gary Reed – Pennaeth y Swyddfa Ymchwil**

## Cefnogi Ymchwil

Bydd ein Swyddogion Cefnogi Ymchwil ar gael yn ystod yr haf i gynorthwyo â cheisiadau am grantiau ac i gynorthwyo ymchwilwyr i ddod o hyd i bartneriaid, sef naill ai ysgolheigion eraill yn Aberystwyth neu brifysgolion eraill, neu sefydliadau'r sectorau cyhoeddus neu breifat. Ceir cymorth pellach drwy'r Pecyn Cymorth Ymchwil (www.aber.ac.uk/cy/research/toolkit/ sydd ar gael o'ch cartrefi drwy VPN), ac sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol a chopïau o geisiadau grant llwyddiannus.

Mae adnodd arall, sef gwasanaeth bas-data Cyfleoedd Cyllido Ymchwil y Brifysgol, yn newid ei ddarparwr o Research Professional i CoS Pivot. Mae CoS Pivot yn cynnig rhyngwyneb glanach, mwy ymarferol, ac adnoddau ychwanegol sy'n cefnogi rhan o strategaeth y Brifysgol i gynyddu ymchwil cydweithredol a chyllid ymchwil rhyngwladol. Er enghraifft: wrth chwilio am gyllid mae'r system yn adnabod ar unwaith ymchwilwyr eraill yn Aberystwyth a allai hefyd fod â diddordeb yn eich chwiliad, ac yn gallu adnabod pobl o sefydliadau eraill yn y DU a thramor. Mae gan Pivot hefyd ystod ehangach o gyfleoedd ymchwil, gan gynnwys y rheiny o ffynonellau mwy rhyngwladol ac amrywiol. (Gweler y cyswllt â Bas-data Cyfleoedd Cyllido Ymchwil www.aber.ac.uk/cy/research/research-funding/pivot ar gyfer mwy o wybodaeth).

Mae'r Swyddfa Ymchwil, ar y cyd â'r Adran Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus a'r Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori wedi bod yn datblygu cyfeiriadur arbenigedd ar gyfer Brifysgol. Pwrpas y cyfeiriadur yw hyrwyddo arbenigedd ymchwil y Brifysol, codi proffil ein harbenigwyr yn y cyfryngau a chynorthwyo i ddatblygu gweithio mewn cydweithrediad â sefydliadau o'r sector gyhoeddus a'r sector breifat o ran gwaith ymchwil, ymgysylltu polisi a masnacheiddio. Bydd y cyfeiriadur hefyd yn ei gwneud hi'n haws i adnabod arbenigwyr o fewn y Brifysgol er mwyn cefnogi potensial rhyngddisgyblaethol, a bydd yn cael ei gysylltu gyda bas-data cyllido ymchwil newydd CoS Pivot. Cyn i'r cyfeiriadur fynd yn fyw, bydd pob academydd sydd â phroffil ymchwil gweithredol yn derbyn ebost ym mis Medi i wneud yn siŵr bod yr arbenigedd a briodolwyd iddynt yn gywir. A wnewch chi gynorthwyo os gwelwch yn dda trwy ymbateb a gwirio?

## Cydweithredu

O ran cydweithredu, rwy'n falch o gyhoeddi y gofynnwyd i Brifysgol Aberystwyth, drwy'r Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, arwain yr agenda Diogelwch Bwyd ar ran Prifysgolion Grŵp Gŵyl Dewi Sant (Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Morgannwg ac Abertawe), a Phrifysgolion Grŵp BBSRC (Caer-grawnt, Reading, Nottingham, Warwig, Caeredin, Leeds, Prifysgol East Anglia, a Choleg Amaethyddol Alban a Harper Adams). Mae Aberystwyth wedi cydweithio â Phrifysgol Bangor i redeg dau gyfarfod llwyddiannus iawn a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos yn dechrau Mehefin 20fed yng Nghaerdydd a Llundain. Y cam nesaf fydd mapio ein cryfderau a galluoedd ymchwil ar draws y ddau grŵp. Os oes gennych ddiddordeb mewn prosiectau ymchwil diogelwch bwyd rhyngddisgyblaethol, rhowch wybod i ni.

## OPAN

Ar yr 20fed o Fehefin cynhaliodd y Brifysgol ddigwyddiad ymchwil ar y cyd gyda OPAN, Rhwydwaith Ymchwil a Datblygu Pobl Hŷn a Heneiddio. Cafwyd cyfraniadau gan Dr Kate Bullen, pennaeth yr Adran Seicoleg, a Dr Joanne Thatcher, pennaeth gweithredol Adran Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff i'r digwyddiad "Yr Agenda Oedran yn Aberystwyth – adeiladu ymchwil cydweithredol â phobl hŷn ar heriau heneiddio yn y 21ain ganrif".

www.opanwales.org.uk

## Cysylltiadau Cymorth Ymchwil

| Enw | Swydd | Ebost | Estyniad |
|---|---|---|---|
| **Swyddfa Ymchwil** | | | |
| Gary Reed | Pennaeth y Swyddfa Ymchwil | gar | 1789 |
| Hannah Payne | Swyddog FfRhY Monitro Ymchwil | hep | 8490 |
| Dafydd Roberts | Swyddog Cefnogi Ymchwil - **Cyfadran y Celfyddydau a'r Dyniaethau** | dir | 8787 |
| Joanne Walker *(cyfnod mamolaeth Jenny Deaville)* | Swyddog Cefnogi Ymchwil - **Cyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol** | jnw | 1616 |
| Sonia Monteiro | Swyddog Cefnogi Ymchwil - **Cyfadran y Gwyddorau** | smm14 | 2947 |
| Huw Merfyn Hughes | Swyddog Cyllid Ewropeaidd | hmh | 8742 |
| **IBERS** | | | |
| Steve Fish | Rheolwr Datblygu Eiddo Deallusol IBERS | stf | 3232 |
| Martine Spittle | Rheolwr Datblygu Cronfa Ymchwil IBERS | rjs | 1562 |
| Liz Humphries | Swyddog Ymchwil a Throsglwyddo Gwybodaeth IBERS | elh20 | 3072 |

Ceir Cymorth Ymchwil pellach drwy'r Pecyn Cymorth Ymchwil a'r Bas-data Cyfleoedd Cyllido Ymchwil (PIVOT) yn www.aber.ac.uk/cy/research/

| Enw | Swydd | Ebost | Estyniad |
|---|---|---|---|
| **Cysylltiadau Golygyddol** | | | |
| Delyth Evans | Gweinyddydd Cyfathrebu Ymchwil | dte | 8753 |
| Arthur Dafis | Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus | aid | 1763 |

# Pwerau niwclear



*Yr Athro Nicholas J Wheeler*

Yn ddiweddar dychwelodd yr Athro Nicholas J. Wheeler, sydd yn arwain prosiect Heriau i Adeiladu Ymddiriedaeth mewn Bydoedd Niwclear yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, o'r India lle bu'n cyflwyno gwaith y prosiect ac yn cynnal gweithdy trawsnewid gwrthdaro a drefnwyd gan Gorff Anllywodraethol o'r India, Gwragedd mewn Rheolaeth Gwrthdaro Diogelwch a Heddwch (WISCOMP). Yn ystod yr ymweliad bu hefyd yn cyfweld bron i ugain o wleidyddion, diplomyddion a llunwyr polisi eraill o'r India ynghylch adeiladu ymddiriedaeth rhwng y ddau bŵer niwclear India a Phacistan.

Ym Mehefin 2011 cynhaliodd y prosiect ei ail symposiwm blynyddol ar 'Nuclear Rivalries and Prospects for Cooperation and Trust-Building'. Daeth ymchwilwyr gyrfa gynnar, academyddion profiadol ac ymarferwyr sydd yn gweithio ym meysydd ymchwil ymddiriedaeth a gwleidyddiaeth niwclear at ei gilydd ar gyfer y digwyddiad deuddydd. Bu cyfranwyr yn trafod cyflwyniadau a oedd yn canolbwyntio ar ddeinameg niwclear cyfredol mewn ardaloedd megis y Dwyrain Canol a De Asia, yn ogystal â thueddiadau i'r dyfodol yn y berthynas niwclear rhwng yr Unol Daleithiau, Tsieina a Rwsia.

# Llwybr llaethog

Mae IBERS yn arwain prosiect rhyngwladol i gefnogi amaethu llaeth organig a mewnbwn isel.

Cynllun pum mlynedd gwerth £5.28m yw SOLID (Sustainable Organic and Low Input Dairying), sydd yn cynnwys 26 o bartneriaid o 11 gwlad wahanol.

Prif nod y prosiect, sy'n cynnwys gwartheg a geifr, yw gwella bridiau a dulliau bwydo er mwyn cynnal lefelau cynnyrch a gwella lles ac iechyd anifeiliaid, tra'n dal i gwrdd y galw yn y farchnad am laeth o ansawdd uchel.

http://www.aber.ac.uk/en/ibers/news/news_archive_all/news_archive_2011/title-98055-en.html

# Llên menywod

Ar ddiwedd Mai bu Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol Prifysgol Aberystwyth yn dathlu lansio Canolfan newydd i Lên Menywod a Diwylliant Llenyddol.

Mae'r Ganolfan, sy'n weithredol ers 2010, yn tynnu ar yr ymchwil gynhwysfawr i lên menywod a wneir ar hyn o bryd yn yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol. Gyda'i gilydd, gan gynnwys Cyfarwyddwr y Ganolfan, **Dr Sarah Prescott**, mae deg aelod o staff a phedwar ar ddeg o uwchraddedigion yn yr Adran yn ymchwilio yn y maes hwn.

Mae staff yn cyhoeddi'n eang ar lên menywod o'r canol oesoedd i'r dydd hwn ac mae'r Adran hefyd yn ymfalchïo fod yn eu plith nifer o fenywod sy'n awduron cyhoeddedig, megis Dirprwy Gyfarwyddwr y Ganolfan, **Dr Tiffany Atkinson**.

Yn y dyfodol mae'r ganolfan yn bwriadu cynnal darlith flynyddol i'w thraddodi gan ffigwr amlwg yn y maes yn ogystal â chynhadledd fawr ryngwladol bob tair blynedd. Yn ogystal â hyn, bydd yn gyfrifol am gyfres o weithdai a chynadleddau a drefnir gan ac ar gyfer uwchraddedigion.

www.aber.ac.uk/en/english/departmental-research/departmental-research-centres/womenswriting/

# Iawnderau Dynol

Mae llyfr a gyhoeddnyd yn ddiweddar, *New Developments in the Area of Human Rights*, a gydolygwyd gan Marco Odello a Sofia Cavandoli o Adran y Gyfraith a Throseddeg, yn darparu cyfres o astudiaethau a myfyrdodau ar iawnderau dynol sydd wedi dod i'r amlwg ar sail datblygiadau yn y gyfraith sydd wedi digwydd ers mabwysiadu Datganiad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar Iawnderau Dynol.

Mae'r llyfr yn ffrwyth colocwiwm gafodd ei drefnu gan Adran y Gyfraith a Throseddeg yma yn Aberystwyth ym mis Rhagfyr 2008 I ddathlu 60 pen-blwydd Datganiad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar Iawnderau Dynol. Mae'r prif themâu yn y gwahanol benodau yn trafod materion a hawliau na chafodd eu cynnwys yn y Datganiad Cyffredinol yn 1948.

Ceir mwy o wybodaeth yma www.routledge.com/books/details/9780415562096/

# Ynni gwyllt

Mae gwyddonwyr yn IBERS yn ymchwilio i sut y gall glaswellt, brwyn a rhedyn ddarparu ynni a chynorthwyo i warchod tir yng Nghymru sy'n bwysig o ran byd natur.

Drwy weithio gyda chanolfannau ymchwil yn yr Almaen ac Estonia maent yn datblygu ffyrdd newydd o reoli porfeydd segur. Cynllun 3.5 mlynedd yw PROGRASS sy'n cael arian trwy gronfa LIFE+ y Comisiwn Ewropeaidd a'r nod yw gwneud gwell defnydd o borfeydd mewn safleoedd sydd wedi'u gwarchod, gan gynyddu bioamrywiaeth trwy gynnig ffordd gynaliadwy o reoli'r tir.

Mae tri o'r chwe safle arbrofol yng Nghymru o fewn Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, dan reolaeth y Cyngor Cefn Gwlad. Mae'r gwaith yn IBERS yn cael ei arwain gan Dr Mariecia Fraser.

www.aber.ac.uk/en/ibers/research/bec/bec_projects/pstcon2ghwadbp/

# Toriadau a chraciau

Llwyddodd yr Athro Gennady Mishuris o Sefydliad Mathemateg a Ffiseg i ddenu cyllid o dan raglen FP7. Dyfarnwyd €1.5m iddo am HYDROFRAC (Enhancing hydraulic fracturing on the basis of numerical simulation of coupled geomechanical, hydrodynamic and microseismic processes), €170,000 am y prosiect INTERCRACKS (Unsolved problems in fracture mechanics of heterogeneous materials), a €230,000 am y prosiect OA AM (Articular Contact Mechanics with Application to Early Diagnosis of Osteoarthritis: Asymptotic Modelling of Biomechanical Contact Phenomena Under Dynamic and Impact Loading). Bydd yr Athro Mishuris yn gweithio gyda Dr A Piccolroaz o Trento yn yr Eidal ar 'INTERCRACK', a'r Athro I. Argatov o St. Petersburg, Rwsia ar y prosiect OA AM.

NEWYDDION PRIFYSGOL

# Graddio 2011



Gydag o ddeutu 2,500 o israddedigion yn graddio eleni mae'n hawdd anghofio weithiau fod gan bob un hanes i'w adrodd. Bu Newyddion Aber yn siarad gyda rhai a fu'n dathlu.

Graddiodd **Christopher Smith** gyda 2:i mewn Ieithoedd Ewropeaidd wedi iddo astudio Sbaeneg a Ffrangeg fel ei brif bynciau ac Almaeneg fel is-bwnc.

Roedd Christopher hefyd yn dathlu llwyddiant yng nghystadleuaeth cyfieithu Veritas Language Solutions. Nid yn unig y bu iddo gipio'r wobr am y cyfieithiad gorau o'r Sbaeneg i'r Saesneg, ond ef hefyd oedd enillydd y wobr am y cyfieithiad gorau un, gan drechu cystadleuwyr o'r DU, Sbaen a'r Eidal.

Dywedodd: "Cefais amser gwych yn astudio yn Aberystwyth a chredaf fod fy ngradd yn sylfaen dda ar gyfer datblygu fy ngyrfa fel ieithydd."

Graddiodd **Iwan Bryn James** gyda gradd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg wedi iddo gwblhau'r Radd Allanol Drwy Gyfrwng y Gymraeg ar ôl astudio am wyth mlynedd.

Yn ychwanegol at hyn bu i Iwan, sy'n rheolwr Uned Cadwraeth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, rannu Gwobr TE Nicholas am y traethawd gorau.

Testun ei draethawd hir oedd 'Lloerigion Drws y Nant'. "Ro'n i wedi cael fy magu ynghanol straeon llafar gwych am y' Lloerigion', yr uchelwyr bohemaidd, llengar yma o'r ddeunawfed ganrif. Roedd tafarn Drws y Nant yn arfer bod yn rhan o fy nghartref i, Fferm Hywel Dda, Rhydymain, Dolgellau ac yma y byddai'r Lloerigion yn cyfarfod min nos. Ro'n i'n arbennig o falch o'r cyfle i edrych ar hanes fy nghynefin yn y traethawd."

Pan ddewisodd **Jonathan Lowe** o Atlanta (Georgia) yr Unol Daleithiau, i astudio am radd BSc mewn Ymddygiad Anifeiliaid yn Aberystwyth ychydig a wyddai ei fod yn dilyn ôl troed ei hen rieni cu.

Daeth hen fam-gu Jonathan, Edith Mary Turner, i Aber yn 1904 gan ennill gradd mewn Bywydeg cyn mynd ymlaen i astudio daearyddiaeth o dan yr Athro Fleure. Roedd ei hen dad-cu, Frank George William King, hefyd yn raddedig o Aber ac yn aelod o'r Royal Flying Corps yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ac yntau bellach wedi graddio, bydd Jonathan yn dychwelyd i'r UDA i weithio fel cynorthwy-ydd ymchwil yng Nghanolfan Ymchwil Cenedlaethol Primatiaid Yerkes ym Mhrifysgol Emroy yn Georgia.

Roedd **Colette Williams** o'r Drenewydd ac sydd yn fam i wyth o blant, wrth ei bodd yn derbyn ei gradd BA (Anrhydedd) mewn Addysg a Drama (2 ii) ar ddydd Mercher 13 Gorffennaf.

Cafodd Colette ei hannog i ddychwelyd i fyd addysg yn rhannol gan y ffaith i'w thad lwyddo i newid gyrfa ac yntau yn 40 oed. "Roedd fy nhad yn beiriannydd morol wnaeth gwblhau gradd mewn nyrsio pan oedd yn 40," eglurodd, "rwy'n credu'n gryf bod gan bawb y gallu i gyflawni ei botensial, waeth beth fo'i oedran."

Tra bo Colette yn falch iawn o'i llwyddiant personol, fel mam, yr effaith bositif mae astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi'i gael ar ei phlant sy'n rhoi'r boddhad mwyaf iddi o ran ysbrydoli a 'normaleiddio' astudio.

Mae Colette wedi ei derbyn ar gwrs TAR ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd ym mis Medi.

Graddiodd **Giles Polglase**, sy'n gweithio i'r Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd yn y Brifysgol, gyda Gradd Meistr mewn Gweinyddu Busnes, ac ef yw enillydd Gwobr David Davies am Reolaeth Adnoddau Dynol 2011.

Cwblhaodd Giles ei MBA fel rhan o Gynllun Datblygu Personol Prifysgol Aberystwyth sy'n annog staff i gyfranogi mewn datblygiad proffeisynol drwy ddilyn modiwlau a chyrsiau gradd tra'n gyflogedig.

"Hwn yw'r cwrs academaidd gorau imi ei gwblhau o bell ffordd. Ro'n i'n gallu trosglwyddo'r theori a ddysgais ar ddiwrnod cyntaf o'r cwrs yn syth i fy arferion yn y gwaith."

Derbyniodd **Ursula Byrne**, Rheolwr Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes ei gradd MA (Gwyddeleg) ar ddydd Iau 14 Gorffennaf.

"Dechreuais astudio ar gyfer yr MA yn 2005 pan oeddwn yn gweinyddu'r Radd Allanol Trwy Gyfrwng y Gymraeg," esboniodd Ursula. "Yna fe symudais i swydd amser llawn, a oedd yn golygu fy mod wedi cymryd yn hirach i gwblhau'r traethawd estynedig. Mae MA o'r math yma, sydd ar gael i'w astudio yn rhan amser, yn arbennig o addas i bobol sy'n gweithio," meddai.

Testun traethawd estynedig Ursula oedd 'Golwg ar y defnydd o Lenyddiaeth Wyddeleg yn arholiad yr Ardteistiméireacht 1924-2008', gan archwilio'r newid yn y testunau, llwyth gwaith darllen, a natur a phwrpas y dulliau asesu.

Graddiodd Ursula yn wreiddiol o Goleg y Brifysgol, Dulyn, gyda BA mewn Gwyddeleg a Chymraeg.

# Cymrodyr 2011

## Urddwyd chwe Chymrawd yn ystod seremonïau graddio eleni.



Cafodd Golygydd Busnes arobryn y BBC, **Robert Peston**, ei gyflwyno gan Gyfarwyddwr yr Ysgol Rheolaeth a Busnes, Mr Nicholas Perdikis.

Cafodd Robert Preston gryn gydnabyddiaeth am ei waith yn ystod argyfwng bancio Northern Rock ac enillodd sawl gwobr, gan gynnwys Newyddiadurwr y Flwyddyn, Newyddiadurwr Arbenigol y Flwyddyn a Sgŵp y Flwyddyn (ddwywaith) gan y Gymdeithas Deledu Frenhinol.



Cyflwynwyd yr ymgyrchydd Iawnderau Dynol **Dr Mary King**, a fu'n am gyfnod yn gweithio ochr yn ochr â Dr Martin Luther King, gan yr Athro Michael Foley, Pennaeth yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Mae Dr King, a fu'n astudio am ei doethuriaeth yma yn Aberystwyth, yn academydd o fri ac yn awdur toreithiog. Mae ei llyfrau yn cynnwys *Freedom Song: A Personal Story of the 1960s Civil Rights Movement*, cyfrol y dyfarnwyd Gwobr Llyfr Coffa Robert F. Kennedy iddi.



Cyflwynwyd y **Gwir Anrh. Arglwydd Ustus Pill** gan Winston Roddick QC, Is Lywydd y Brifysgol.

Cafodd Syr Malcolm Thomas Pill yrfa neilltuol yn y gyfraith fel Cwnsler a Chwnsler y Frenhines ac wrth weinyddu cyfiawnder fel Cofiadur, Barnwr Adran Mainc y Frenhines ac fel Arglwydd Ustus dros Apêl. Ef sydd wedi treulio'r cyfnod hiraf fel Arglwydd Ustus dros Apêl ac ef hefyd yw aelod uchaf Llys Apêl Cymru a Lloegr.

Mae'n gyn-drydydd Ysgrifennydd yn y Swyddfa Dramor a threuliodd gyfnod yng Ngenefa gyda Chomisiwn Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (CU), ac yn gyn-gadeirydd Canolfan Ymddiriedolaeth Cymdeithas y CU Cymru, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru a Phwyllgor y DU ar gyfer Ymgyrch Rhyddid Rhag Newyn.



Cyflwynwyd **Yr Athro Christianne Glossop**, Prif Swyddog Milfeddygol Llywodraeth Cymru gan yr Athro Will Haresign, Dirprwy Gyfarwyddwr Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig.

Penodwyd Yr Athro Christianne Glossop i'w swydd bresennol yn 2005 a hi sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu strategaeth a pholisi iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru.

Cafodd y gefnogaeth a roddodd i'r sector da byw gydnabyddiaeth arbennig. Dyfarnwyd iddi Wobr y Dywysoges Frenhinol gan Gymdeithas Frenhinol Ffermwyr Llaeth Prydain yn 2009 am ei gwaith ar waredu'r Diciâu (TB), ac yn yr un flwyddyn roedd yn gyd-enillydd gwobr Farming Champion y Farmers Weekly gydag Elin Jones, y cyn Weinidog Materion Gwledig. Cafodd ei phenodi yn Athro er Anrhydedd yn y Coleg Milfeddygol Brenhinol yn Llundain yn 2007.



Cyflwynwyd **Dr Clive James**, gwyddonydd amaethyddol a sefydlydd yr International Service for the Acquisition of Agri-biotech Applications (ISAAA) gan yr Athro Wayne Powell, Cyfarwyddwr Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Chefn Gwlad.

Yn raddedig o Aber (Botaneg Amaethyddol, 1961), sefydlodd Dr James ISAAA yn 1990 er mwyn hwyluso'r gwaith o rannu gwybodaeth, casglu a thorsglwyddo cymwysiadau biotechnoleg cnydau o wledydd diwydiannol er lles ffermwyr o'r byd sydd yn datblygu ac sydd yn brin o adnoddau. Sefydliad elusenol nid er elw yw ISAAA a'r amcan yw lleddfu newyn a thlodi yn y byd sydd yn datblygu.

Cyn sefydlu ISAAA, ef oedd Is-Gyfarwyddwr Cyffredinol yr International Maize and Wheat Improvement Center yn Mecsico ble y cydweithiodd â Norman Ernest Borlaug, enillydd gwobr Nobel a noddwr sefydlol yr ISAAA. Bu hefyd yn Uwch Gynghorydd Amaethyddol i Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig.



Cyflwynwyd yr arweinydd milwrol, awdur ac academydd o fri, yr **Is-Gadfridog Jonathon Riley**, gan yr Athro Martin Alexander o Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Ymunodd yr Is-Gadfridog Riley â'r Fyddin yn 1973 gan ymroi i fywyd yn y lluoedd arfog, cyn ymddeol o wasanaeth gweithredol yn 2009 pan ymgymerodd â'r rôl Cyfarwyddwr Cyffredinol a Meistr yr Arfdai Brenhinol.

Dyfarnwyd Urdd Gwasanaeth Neilltuol iddo fel cydnabyddiaeth o'i ddewrder a'i ymddygiad neilltuol yn y Balcannau ym 1995, ac fe'i gwnaethpwyd yn Swyddog o'r Lleng Teilyngdod Unol Daleithiau'r America yn 2004 ac yn Gydymaith Urdd y Baddon yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd, 2008. Ym mis Rhagfyr 2009 derbyniodd Medal Gwasanaeth Teilwng NATO gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol.

COMPUTER SCIENCE



Yr Athro Chris Price

# Datblygu'r iChwyldro

Yr Athro Chris Price cjp@aber.ac.uk

Ar y 7fed, 8fed a 9fed o Fedi, Prifysgol Aberystwyth fydd lleoliad iOS DEV UK, y gynhadledd gyntaf yn y DU ar gyfer datblygwyr iPhone (www.iosdevuk.com). Dyma'r Athro Chris Price, a greodd yr app llwyddiannus i ddysgwyr Cymraeg, y 'Cwrs Mynediad', yn edrych ar y ffenomen sy'n chwyldroi cyfathrebu symudol modern.

Pan lansiodd Apple eu Siop App iPhone yn 1998, dechreuwyd chwyldro mewn ffonau symudol. Cyn y dyddiad hwnnw, ychydig iawn o bobl oedd yn disgwyl i'w ffôn allu gwneud unrhyw beth ar wahân i alwadau ffôn, anfon negeseuon testun neu efallai bori'r We. Rydyn ni bellach mewn sefyllfa lle bydd dros hanner y ffonau a werthir yn yr UDA eleni yn ffonau smart - yn gallu eich helpu i gynllunio eich priodas, dod o hyd i'ch ffordd yn eich car, dewis ac archebu gwesty neu dŷ bwyta, gwylio'ch pwysau, cadw dyddiadur a miloedd o bethau defnyddiol eraill.

Erbyn hyn mae gan y Siop App iPhone dros hanner miliwn o gymwysiadau ar werth, ac mae Siop App Android (prif gystadleuydd Apple) wedi cyrraedd 250,000 App. Dyw pob un o'r rhain ddim yn ddefnyddiol - mae'n debyg bod rhai cannoedd o Apps sy'n gwneud dim mwy na chreu synnau rhyfedd.

Er hyn, ceir llawer o Apps sy'n cynnig swyddogaeth gwirioneddol ddefnyddiol a gwerthodd Apple werth dros $2 biliwn o Apps y llynedd. Rhagwelir fod hyn yn debygol o gynyddu i $15 biliwn erbyn 2015.

Mae'r DU wedi bod yn cyfrannu at y diwydiant hwn gyda niferoedd iach o Apps yn cael eu creu a'u gwerthu. Mae rhai o'r rhain yn cael eu creu gan ficro-gwmniau fel Johnny Two Shoes, y brodyr Max a Josh Scott - Slade, a ysgrifennodd y gêm morladron llwyddiannus "Plunderland". Mae eraill yn gynnyrch cwmnïau mwy profiadol fel Agant Limited, a gynhyrchodd App Amseroedd Trên y DU llwyddiannus iawn, yn ogystal â nifer o Apps i gwmnïau eraill.

Mae llwyddiant y cyfrifiaduron cludadwy a elwir gennym yn ffonau smart wedi arwain at gyfrifiaduron bach eraill sy'n debyg ond heb y ffôn. Mae Apple wedi arwain y ffordd yn y farchnad hon, yn gyntaf gyda'r iPod Touch, sydd yr un maint â'r iPhone, ond yn rhatach o lawer, ac a all wneud bron popeth y gall yr iPhone ei wneud ar wahân i alwadau ffôn. Yn dilyn hyn cafwyd fersiwn mwy o lawer, yr iPad. I ddechrau roedd pobl yn meddwl mai "iPod Touch mawr" oedd hwn, ond roedd hynny'n anwybyddu'r manteision sylweddol a geir gyda



sgrin mwy o faint. Mae'r ffurf tabled hwn a welir gyda'r iPad yn ddelfrydol ar gyfer gweld tudalennau gwe cyflawn, gwylio fideos, darllen ac ysgrifennu dogfennau, a cheir arwyddion bod llawer o bobl a fyddai wedi prynu gliniadur ar gyfer y math yma o dasgau bellach yn prynu tabled yn lle hynny.

Mae'r defnydd o gymwysiadau ffonau smart a thabledi gan fusnesau yn sector sy'n tyfu'n gyflym ac yn un nad oedd wedi'i rhagweld yn llawn flwyddyn neu ddwy yn ôl. Mae'r tabledi newydd yn arbennig wedi profi'n boblogaidd iawn ar gyfer amrywiaeth o dasgau. Mae gwerthwyr yn eu defnyddio i roi cyflwyniadau, nodi cysylltiadau a chofnodi cyfarfodydd. Mae American Airlines wedi dechrau defnyddio App ar yr iPhone yn lle mapiau papur. Amcangyfrifir y bydd hyn yn arbed dros $1 miliwn y flwyddyn oherwydd y gostyngiad o ran pwysau mae hyn yn ei olygu.

Yn UDA amcangyfrifir fod gan 75% o ymarferwyr meddygol o leiaf un ddyfais Apple, gan eu defnyddio ar gyfer tasgau gan gynnwys edrych ar gofnodion cleifion, dangos ffotograffau pelydr x a chanfod gwybodaeth feddygol. Maen nhw'n datblygu i fod yn rhan mor bwysig o fywyd y meddyg nes bod Prifysgol Stanford a Phrifysgol Chicago wedi dechrau rhoi iPad i bob meddyg sy'n hyfforddi.

Mae ffonau smart a dyfeisiadau tabled yn datblygu'n rhan hanfodol o fywyd modern, ar gyfer hamdden, gwybodaeth, cadw cysylltiad, a busnes. Mae 200 miliwn o ddyfeisiadau ffôn a thabled yn rhedeg meddalwedd Apple, a thros 100 miliwn arall yn rhedeg meddalwedd Android Google, ac mae'r niferoedd hyn yn cynyddu'n gyflym.

Yn Aberystwyth ym mis Medi byddwn yn dwyn ynghyd bobl o'r DU sy'n cyfrannu at greu'r chwyldro hwn, gan rannu profiadau er mwyn ei'n gwneud ni'n fwy cystadleuol wrth adeiladu Apps i newid y byd.

**Troednodyn**

Mae'r Adran Gyfrifiadureg wedi rhedeg cyrsiau i ddatblygwyr App masnachol ac yn cynnig cyrsiau israddedig Cyfrifiadura Pobman tair a phedair blynedd. www.aber.ac.uk/cy/undergrad/courses/compsci/ubiquitous-computing/

**ADNODDAU DYNOL**

# Cyhoeddiadau 'Pencampwyr' Cydraddoldeb

## Mae'n bleser gan Adnoddau Dynol hysbysu staff o'r gweithgareddau cydraddoldeb canlynol:

**Siarter / Pencampwr Athena SWAN** - Ym mis Mai 2011 daethom yn aelodau o Siarter Athena SWAN sydd yn cydnabod ac yn dathlu ymarfer cyflogaeth dda i ferched sydd yn gweithio mewn gwyddoniaeth, peirianneg ac ymchwil. Dr Kate Bullen, pennaeth Seicoleg yw ein Pencampwr ni.

**Pencampwyr Stonewall Cymru -** Ym mis Gorffennaf fe ymunom ni â fforwm ymarfer da cyfeiriadedd rhywiol Rhaglen Pencampwyr Amrywioldeb Stonewall Cymru lle gall cyflogwyr weithio gyda Stonewall, a gyda'i gilydd, i hyrwyddo amrywioldeb yn y gweithle. Mae hyn yn dilyn ymweliad gan Gyfarwyddwr Stonewall Cymru a digwyddiad rhwydweithio staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol ym mis Mai.

**Pencampwyr Cydraddoldeb Aberystwyth** - Sefydlwyd rhwydwaith Pencampwyr Cydraddoldeb staff ym mis Mehefin 2011 er mwyn ein cynorthwyo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywioldeb ymhellach ar draws y Brifysgol. Cynhelir lansiad a diwrnod hyfforddiant ym mis Awst 201.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r uchod, cysylltwch ag Olymbia ar 8598 neu ebostio opp@aber.ac.uk.

# Iechyd a Lles yn Aber

Yn dilyn yr arolwg peilot 'Rheolaeth Pwysau' gan yr Awdurdod Gweithredol ar Iechyd a Diogelwch gafodd ei wneud yn 2010, mae'r Adran Adnoddau Dynol, drwy gynllun HEFCE 'Improving Performance through Wellbeing and Engagement', wedi cynnal ail arolwg 'ASSET' a gafodd ei beilota gan 13 o adrannau er mwyn mesur lles staff, a chymharu'r ddau arolwg.

Erfyn a ddatblygwyd gan yr Athro Cary Cooper yw ASSET, arbenigwr byd-eang ym maes seicometreg a mesur iechyd, a'r tîm yn Robertson Cooper Ltd. Mae'n mesur ffynonellau hysbys o bwysau mewn sefydliadau, megis perthnasau gwaith a galwadau llwyth gwaith. Mae ein canlyniadau dechreuol yn dangos bod staff yma yn Aberystwyth yn gadarnhaol ynghylch agweddau o'u swyddi ond fod sicrwydd swydd yn cael ei weld gan y rhai a gyfrannodd at yr arolwg yn ffynhonnell o bwysau.

Disgwylir adroddiad llawn ar gyfer y Brifysgol ym mis Awst 2011a hoffem ddiolch i'r staff a gyfrannodd tuag at y ddau beilot yma.

# Wythnos Dechrau Busnes Mehefin 2011

Cafodd Wythnos Dechrau Busnes Haf y Brifysgol ei chynnal ar y campws rhwng dydd Llun 6 a dydd Gwener 10 Mehefin 2011. Roedd y gwersyll ffitrwydd busnes hwn yn gyfle gwych i staff, myfyrwyr a graddedigion i fod yn rhan o gyfres o weithdai sgiliau busnes hanfodol cyflawn rhad ac am ddim.



*Rhai o'r bobl fu'n rhan o Wythnos Dechrau Busnes 2011 gyda'r model rôl ysbrydoledig Kees Hujisman (canol), sefydlwr Cwmni Waffls Tregroes.*

Roedd gan y rhai a fynychodd un ai syniad busnes yr oeddent am ei wireddu neu ddiddordeb mewn datblygu eu sgiliau mentro. Roedd y sesiynau yn cwmpasu themâu megis: Cynllunio Busnes, Ymchwil i'r Farchnad, Cynllunio Ariannol a E-farchnata. Yn ogystal roedd cyfle i fwynhau sesiynau rhyngweithiol ar sut i rwydweithio ac i glywed gan entrepeneuriaid lleol Ben Giles (Ultima Cleaning) a Kees Hujisman (Waffls Tregroes).

Bu 29 o bobl yn rhan o weithgaredd Wythnos Dechrau Busnes o ddeg adran wahanol o'r Brifysgol megis Addysg, Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Theatr, Ffilm a Theledu a Chyfrifiadureg. Yn ogystal croesawyd graddedigion yn ôl i'r Brifysgol a phobl leol a oedd yn awyddus i sefydlu mentrau newydd.

Yn ôl Anita Ball roedd yr wythnos yn "...wych drwyddi draw - fe wnaeth i mi sylweddoli beth sydd angen i mi ei wneud er mwyn gwireddu fy syniad. Fe wnaeth fy nghynorthwyo i sianelu fy syniadau i feysydd targed hawdd eu hadnabod."

POBL ABER

# Penodiadau



### Astudiaethau Theatr Film a Theledu

Bydd **Gideon Koppel** yn ymuno â'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu fis Medi fel Athro newydd ym maes Ffilm. Cyn hyn, bu'n Gyfarwyddwr Cwrs MA Documentary by Practice yn y Royal Holloway, Prifysgol Llundain, ac yn ddiweddar ef a gynhyrchodd y ffilm Sleep Furiously a gafodd glod beirniadol ac a enillodd Wobr Ffilm Fawr Gyntaf y *Guardian* yn 2009.



### Ysgol Rheolaeth a Busnes

Penodwyd **Ian Thomas** yn Gyfarwyddwr Rhaglenni Ôl-raddedig a Datblygiad Rhyngwladol yn yr Ysgol Rheolaeth a Busnes. Yn raddedig o Aber (MBA) dychwelodd Ian i Gymru yn dilyn gyrfa lwyddiannus yn y sector fasnachol yn Llundain a de ddwyrain Lloegr. Mae Ian yn ymuno ag Aberystwyth o Ysgol Fusnes ac Economeg Prifysgol Abertawe lle bu'n gweithio am chwe mlynedd.

### Ieithoedd Ewropeaidd

Penodwyd **Dr Andrea Hammel** yn ddarlithydd mewn Almaeneg yn yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd. Mae'n ymuno ag Aberystwyth o Brifysgol Sussex lle bu'n ymchwilydd yn y Ganolfan Astudiaethau Almaeneg-Iddewig a darlithydd yng Nghanolfan Astudiaethau Iaith. Ymysg eu meysydd ymchwil y mae llenyddiaeth a hanes ffoaduriaid Almaeneg eu hiaith a'r Kindertransport. Mae hefyd yn gyd-gyfarwyddwr Rhwydwaith Ymchwil Ysgrifennu a Chyfieithu'r Holocaust sydd yn cael ei gyllido gan yr AHRC.



### Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff

Penodwyr **Dr Joanne Thatcher** yn Bennaeth Dros Dro Adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff. Mae Dr Thatcher yn dilyn yr Athro David Lavallee sydd wedi ei benodi yn Bennaeth Ysgol Chwaraeon ym Mhrifysgol Sterling.

# Ymddeoliad

## Brian Foster



Wedi deugain mlynedd o wasanaeth bydd Brian Foster yn ymddeol ym mis Awst. Decrheuodd Brian weithio i'r Brifysgol ar y 15fed o Awst 1971 fel Cynorthwy-ydd Graddedig. Bu'n astudio Economeg yma tra'n fyfyrwyr rhwng 1967 a 1971. Yn ystod y cyfnod hwn treuliodd ddwy flynedd fel Trysorydd Myfyrwyr a Dirprwy Lywydd ac yn gwasnaethau ar y pwyllgorau Cyngor / Cyllid a Materion Cyffredinol a'r Pwyllgor Datblygu a Blaenoriaethau.

Yn ystod ei gyfnod yn y Brifysgol bu deiliad y swyddi canlynol: Cofrestrydd Cynorthwyol, Cofrestrydd Cynorthwyol Hŷn, Cofrestrydd Academaidd can gynnwys Cynllunio yn 1981 ac yn fwy diweddar Cyfarwyddwr Cynllunio a Chofrestrydd Academaidd. Gwasanaethodd chwe Is-Ganghellor, sef Thomas Parry, Syr Goronwy Daniel, Gareth Owen, Kenneth Morgan, Derec Llwyd Morgan a Noel Lloyd.

# O Fryste i Barcelona

Llongyfarchiadau mawr i James Bradbury-Willis a Dafydd Davies sydd wedi codi dros £12,350 ar gyfer Apêl Elain wedi iddynt gwblhau taith feics 1000 o filltiroedd o Fryste i Barcelona.

Aeth James, sydd yn aelod o'r tîm marchnata digidol, a Dafydd, sydd yn gweithio yn Stiwdio Ddylunio'r Brifysgol ati i gwblhau'r her er mwyn codi arian at Apêl Elain, ymgyrch godi arian blwyddyn o hyd i gefnogi pedair elusen, Ambiwlans Awyr Cymru, Sefydliad Leon Heart (Uned y Galon Plant Cymru), Tŷ Ronald McDonald ac Apêl Fawr Wallace a Gromit. Mae'r pedair elusen wedi cynorthwyo merch ifanc o Aberystwyth, Elain James, ac mae ei mam, Bridget, yn gweithio yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol.

Os ydych am gyfrannu gallwch wneud hynny drwy ymweld â:

www.bristoltobarcelona.co.uk.



*Yn y llun mae James (chwith) a Dafydd yn derbyn crys beicio Prifysgol Aberystwyth cyn dechrau ar y daith oddi wrth yr Athro Martin Jones.*

# Rhagoriaeth dysgu

Cyhoeddwyd enillwyr Cymrodoriaethau Dysgu ac Addysgu Prifysgol Aberystwyth a Gwobrau Cynorthwywyr Dysgu Graddedig Neilltuol.

Cyflwynir Cymrodoriaethau Dysgu ac Addysgu i aelodau staff academaidd sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i ddysgu ac addysgu yn y Brifysgol.

Yr enillwyr eleni yw **Dr Carl Cater** (IBERS), **Dr I-Chant Chiang** (Seicoleg), **Dr Hazel Davey** (IBERS), **Karl Drinkwater** (Gwasanaethau Gwybodaeth), **Dr Gareth Hall** (Seicoleg), **Dr Kobil Ruziev** (Ysgol Rheolaeth a Busnes) a **Dr Mark Smith** (Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear).

Rhoddir y Gwobrau Cynorthwywyr Dysgu Graddedig Neilltuol i gynorthwywyr dysgu ôl-raddedig sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i ddysgu ac addysgu yn y Brifysgol.

Yr enillwyr eleni yw **Rhun Emlyn** (Hanes a Hanes Cymru), **Sarah Forrest** (Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff), **Anja Gebel** (Gwleidyddiaeth Ryngwladol), **Athina Gkouti** (Gwleidyddiaeth Ryngwladol), **Andrew Hom** (Gwleidyddiaeth Ryngwladol), **Erzsebet Strausz** (Gwleidyddiaeth Ryngwladol) ac **Andreja Zevnik** (Gwleidyddiaeth Ryngwladol).

Full details and profiles are available online at www.aber.ac.uk/news



*Yn y llun (chwith i'r dde): Gareth Hall, Mark Smith, Kobil Ruziev, Karl Drinkwater, I-Chant Chiang a Hazel Davey.*

# Yn ôl i'r Fringe

Yn dilyn llwyddiant y cwmni theatr lleol, *Louche Theatre*, yng Ngŵyl Fringe Caeredin llynedd, mae'r merched o CCS yn mynd yn ôl ym mis Awst gyda chynhyrchiad o *Be My Baby*. Mae'r ddrama wedi ei gosod mewn cartref mam a'i phlentyn yn 1964, ac yn llawn hwyl a thor-calon gydag ambell gân a dawns o'r cyfnod.

Mae **Sarah Mair Gates** a **Lizzie Hyde** o'r Gwasanaeth Masnacheiddio ac Ymgynghori (yn y llun) yn falch iawn o gael cyfle arall i berfformio yn yr ŵyl gelfyddydol enwog hon sydd yn rhedeg o'r 5ed tan y 29ain o Awst eleni.

Meddai Lizzie a Sarah: "Mae mor gyffrous cael dychwelyd eleni ond mae yna bwysau yn ogystal, gan fod cynhyrchiad llynedd wedi bod yn gymaint o lwyddiant ac wedi ei enwebu am chwe gwobr, gan gynnwys yr actores orau."

Cynhelir y sioe am chwe noson yn yr Ŵyl o'r 15fed o Awst. Tocynnau a Gwybodaeth ar gael o www.louchetheatre.com.



# Urdd y Myfyrwyr

**Ben Meakin**, Llywydd Urdd Myfyrwyr Aberystwyth yn cyflwyno Swyddogion Sabothol a Gweithredol 2011/12.


Ar Fawrth yr 17eg bu myfyrwyr Aber yn pleidleisio i ethol Swyddogion Sabothol a Gweithredol a fydd yn cynrychioli'r myfyrwyr dros y flwyddyn nesaf.

Mae'r tîm Sabothol newydd yn cynnwys **Alun Minifey**, gafodd ei ailethol fel Swyddog Gweithgareddau, **Jess Leigh**, ein Swyddog Addysg newydd, **Tom Burmeister** ein Swyddog Cymorth Myfyrwyr, **Tammy Hawkins** Llywydd UMCA a Swyddog Materion Cymreig a minnau, **Ben Meakin**, Llywydd yr Undeb.

Mae gennym ni hefyd dîm pwysig o wyth swyddog gweithredol sydd yn gweithio'n wirfoddol i gynorthwyo gyda materion myfyrwyr eraill; **Mike Buchanan** yw Cadeirydd newydd yr Urdd, **Ffion Eluned Owen** yw Swyddog yr Iaith Gymraeg, **Grace Balchin** yn swyddog heb bortffolio, **Laura Dickens** yw Swyddog Cymorth Myfyrwyr ac Ymgyrchoedd, **Kieran Ford** yw'r Swyddog Cynaliadwyedd a Moeseg, **Dan Meehan** yw'r Swyddog y Cymdeithasau, **Ioan Rhys Evans** yw'r Swyddog Chwaraeon a Dorothee Buettner yw'r Swyddog Cyfleoedd Cyfartal.

Mae gan y tîm ddigon o ymgyrchoedd i weithio arnynt drwy'r flwyddyn nesaf gan gynnwys digwyddiadau blynyddol 'I Love Aber', meithrin y cysylltiad rhwng myfyrwyr a'r gwaith o adeiladu llety newydd, creu 'wythnos llety', symleiddio adnoddau academaidd ar lein a llawer mwy. Dylai eleni fod yn flwyddyn dda ym maes cyfryngau myfyrwyr gydag ail lansio *The Courier* a llwyddiant Bay Radio ac AberTV, a fydd yn ein cynorthwyo ni a'r Brifysgol i gyfathrebu gyda'r myfyrwyr drwy gymaint o wahanol gyfryngau ag sy'n bosibl.

Rydym hefyd yn croesawu'r Athro April McMahon, yr Is-Ganghellor newydd, ac yn edrych ymlaen at gydweithio gyda hi drwy'r flwyddyn nesaf.



POBL ABER

# Ac yn olaf...
## *I'm a Physiologist, Get Me Out Of Here!*

Bu **Dr Mark Burnley** o Adran Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff ac aelod o'r Gymdeithas Seicoleg yn cymryd rhan yn *I'm a Scientist, get me out of here!* gafodd ei gynnal yn ystod Mehefin. Cynllun yw hwn sydd yn cael ei gyllido gan y Wellcome Trust lle mae myfyrwyr yn gofyn cwestiynau i wyddonwyr am fywyd, y bydysawd a phopeth.

Mae'r gwyddonwyr wedi eu gosod mewn grwpiau ac yn gorfod ateb cwestiynau. Dros gyfnod o bythefnos mae'r myfyrwyr yn pleidleisio i gael eu gwared ar sail eu hatebion. Roedd Mark yn rhan o'r grŵp chwaraeon ac fe gyrhaeddodd y ddau olaf cyn colli yn erbyn seicolegydd chwaraeon. Llongyfarchiadau i Mark ar ddod yn ail. Mae mwy yma am *'I'm a Scientist'*: imascientist.org.uk/




*Dr Mark Burnley*

DIGWYDDIADUR

## Arddangosfeydd

| CANOLFAN Y CELFYDDYDAU | | |
|---|---|---|
| **tan 14 Medi** | **Wild Thing**<br>Gweithiau cyfoes sy'n ddefnyddio delweddau anifeiliaid | Oriel 1 |
| *Full details of the Arts Centre programme are available online at aberystwythartscentre.co.uk* | | |



## Perfformiadau a Digwyddiadau

| CANOLFAN Y CELFYDDYDAU | |
|---|---|
| **21 Gorffennaf – 27 Awst** | **CHESS The Musical**<br>Un fenyw, wedi ei rhwygo rhwng dau Bencampwr Byd gwyddbwyll – un o Rwsia, un o America. Fe'i gosodir yng nghyfnod y Rhyfel Oer, a daw'n amlwg bod yn chwaraewyr yn wystlon mewn gêm llawer mwy – mae dipyn mwy yn y fantol na gêm fach syml o wyddbwyll.<br>Mae'r sioe yn cynnwys sgôr wych gan y ddau athrylith cerddorol fu'n gyfrifol am ABBA, Bjorn Ulvaeus a Benny Andersson, a geiriau Tim Rice. Bydd y cast proffesiynol llawn, band byw, a set a gwisgoedd moethus yn siŵr o roi noson i'w chofio ichi. |
| **Gwener 19 Awst 7.30yh** | **Twelfth Night**<br>Theatr Illyria yn cyflwyno noson o ramant, cerddoriaeth a hwyl, ac yn perfformio y tu allan ar 'Chapel Court', ar lwyfan a ysbrydolwyd gan berfformwyr teithiol canoloesol. Dewch â blanced a phicnic a'ch ffrindiau i gyd! |
| **Awst** | **Cysylltiadau Sinema Byw**<br>Ym mis Awst bydd Canolfan y Celfyddydau yn cysylltu gyda Gŵyl Glyndebourne ac i berfformiadau o'r Globe Theatre – a'r cyfan yn cael ei ddangos yn fyw mewn HD ar y sgrin yma yn Aberystwyth. |






# Colourscape

Croeso unwaith eto i'r cerflun unigryw hwn sy'n caniatáu ichi grwydro trwy'r siamberi cysylltiol er mwyn profi dwysedd ac ysgafnder lliw.

**Dydd Iau 25 – Dydd Sadwrn 27 Awst 2011**

£7 (£6) / o dan 3 am ddim / Chess ticket holders £5

*Noder - the structure will be built outside on Chapel Court (the grassy area by the main box office entrance).*

Canolfan y Celfyddydau
Aberystwyth Arts Centre